



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>


14731

L. 7




6001008301

14731 f. 7







7.80

Rob Owen
Printer

William Williams

Print

CASGLIAD *Haupton*

HYMNAU, CAROLAU,

MARWNADAU,

A GYFANSODDWDYD

AR AMRYWIOL ACHOSION.

—
GAN JANE ELLIS.
—

Y TRYDYDD ARGRAFFIAD, GYDA CHWANEGIAD.

—
SWYDDFA'R PROTESTANT:

WYDDGRUG, ARGRAFFWYD GAN H. AC O. JONES.

—
1840.

St. from widow of Bob Owen,
Croesor.



HYMNAU, &c

HYMN I.

WRTH ymafyd â dy waith,
Y'mhob rhyw foddion,
O Iesu cadw fi ar fy nhaith
Rhag gau ddibenion;
Dyro im' gael pleser mwy
Y'ngwaith fy Arglwydd;
N'ad im' gerdded cam yn hwy
Heb sancteiddrwydd.

O na fedrwn ganu mawl,
I'r hwn sy'n haeddu,
'R hwn sy'n cynnyg i ni hawl
Yn nheyrnas Iesu:
Ond rhoi'n pwysau arno et
N'i gawn noddfa,
A bod yn etifeddion nef,
Haleluia.

Gan y t'w'llwch sy' ynwy'n bod,
Yr wy'n methu
Canu iddo ddim o'r clod,
Fel mae'n haeddu:
Os ceidw f' yspryd yn y gwaith,
Gwn y cana',
Pan y delwy' i ben y daith,
Haleluia.

HYMN 2.

MAE rhyw ofnau yn fy nilyn
 Ofni'n aml tynnu'n ol,
 Ofni nad oes genyf grefydd,
 Ond cario lamp fel morwyn ffol,
 Ac y byddaf yn y diwedd,
 Yn gweiddi am olew heb gael dim:
 Arglwydd anfon air o'th enau,
 Fyddo'n argyhoeddiad im'.

Mae anghrediniaeth yn fy nhaeru,
 Nad y graig sydd dan fy nhroed,
 Ac na che's i gydâ 'mhroffes,
 Mo'r gwirionedd etto 'rïoed;
 Ond mae rhyw ddirgel lais yn galw,
 Bod Cyfryngwr yn y nef,
 Na ddig'lonwy'n wyneb gwendid,
 Ond pwysu ar ei allu ef.

Y mae arnaf fyrdd o ofnau,
 Na ddeuaf byth i ben fy nhaith,
 A thyna'r mân y maent hwy'n tarddu,
 Ofn bod Iesu heb ddechreu'i waith;
 Ond pe cawn i adnabyddiaeth,
 Fod fy yspryd yn ei law,
 Canu a wnawn yn wyneb ofnau,
 Mi ddo'n iach i'r ochor draw.

'R wyf yn aml tan y tonnau,
 Yn methu anadlu tu a'r lan,

Ond weithiau 'n cael rhyw rym i bwyso
 Ar un sy'n rhoddi nerth i'r gwan;
 'R wyf yn aml mewn tywyllwch,
 Yn methu'n glir a gweled gwawr,
 Ond weithiau'n cael rhyw radd o'leuni,
 I wel'd fod gwyrthiau'r Iesu'n fawr.

HYMN 3.

MAE genyf achos i'th ryfeddu,
 Am drugareddau 'th aswy law;
 O rho im' roddion dy ddeheulaw,
 A'm dwg i trwy'r Iorddonen draw:
 Er imi g'wrdd â myrdd o elynion,
 O rai creulon bob yr awr,
 Ond cael llechu tan dy aden,
 Mi ddo'f allan fel y wawr.

Trwy dy waed ti olchaist arian,
 Er mor ddued oedd ei liw,
 Ti ddychwelaist yr afraidlon,
 Ti gyfodaist feirw'n fyw;
 Dyma finnau wedi 'nghlwyfo,
 Yn greulon gan biccellau'r ddraig,
 Ac nid oes im' feddyginiaeth,
 Ond yn unig Had y wraig.

O rho im' adnabod olew,
 O dy eiddo'n trin fy nghlwy',
 Dyna'm gwna yn hollol dawel,
 Nid oes arnaf eisiau mwy,

Ond nerth i fyw i'm Harglwydd Iesu,
 A heddwch erbyn dydd a ddaw;
 Déued tonnau o'r màn lle delont,
 Cadw f' yspryd yn dy law.

HYMN 4.

WRTH edrych ar yr arfaeth forau,
 Lle trefnwyd ffordd i gadw dyn,
 Rhoes Duw ei unig Fab i ddioddef
 Poenau miloedd arno'i hun;
 Yr wyf yn myn'd i fôr o syndod,
 Wrth edrych ar y cariad mawr,
 Synaf fwy gân mil o weithiau,
 Os cedwir finnau, llwch y llawr.

Y pridd sy'n dew a'r clai sy'n domlyd,
 Ar hyd fy llwybrau o ddydd i ddydd;
 Chwythed awel o'r uchelder,
 Yr hon a wna fy nhraed yn rhydô,
 Fel y delwy'i deithio'n gyflym,—
 Mae'r gawod frwmstan yn nesau;
 Arglwydd dyro im' ddod yna,
 Cyn y caffo'r drws ei gâu.

HYMN 5.

'RWY'N teithio megis ar fy asyn.
 'Rwy'n rhodio'n agos iawn i'r llawr,
 Y mae hyny ar rai amserau
 Yn gwneyd i mi ryw feichiau mawr;

Gan bwys fy maich 'r wy'n diffygio,
 Iesu hawddgar c'od fy mhen,
 Rho im' sugno rhyw ddiferyn
 O'r pleser sydd tu draw i'r llen.

Nid yw pleserau'r byd presenol,
 Pe cawn eu meddu hwynt i gyd,
 Ddim yn ddigon, mi debygwn,
 I ddigoni'm serch a'm bryd;
 Hiraeth grymus am dy gwm'ni,
 Wyf yn deimlo tan fy mron;
 Rho im' 'nabod dy gymdeithas,
 Gwna hyny f'enaid bach yn llon.

Fe fu'r llangciau yn y ffwrnes,
 Fe fu Daniel yn y ffau,
 Dyma finnau yn y carchar,
 Ond etto'th gariad sy'n parhau;
 Tor yn chwilfrw faglau'r gelyn,
 Sydd yn dynnion am fy nhraed,
 A phar imi ganu'n beraidd,
 Am y rhinwedd sy'n dy waed.

'R wy'n och'neidio'n awr wrth gofio
 Am dywallt gwaed ar Galfari,
 Am gael 'nabod rhyw daenelliad,
 Yn cyffwrdd â fy yspryd i;
 Fe fyddai hynny 'n ddigon genyf,
 I fyn'd trwy 'stormydd mawr eu grym,
 Yn eu gwyneb gallwn ganu,
 Bod yr Iesu 'n gyfaill im'.

HYMN 6.

WRTH im' deithio trwy'r anialwch,
 'R wy'n cael clwyf yn fynych iawn,
 Gan y sarph o bechod aflan,
 Nad oes ond gwenwyn ynddo'n llawn;
 O rho im' flydd i godi 'ngolwg,
 At un ga'dd ei dderchafu fry,
 Fe wnaeth hyn leshad i filoedd,
 O rai aflan fel myfi.

Y mae arnaf fyrdd o ofnau,
 Ofnau mawrion o bob rhyw,
 A thyna'r fan lle maent yn tarddu,
 Oddiar droseddu cyfraith Duw ;
 Mae hi'n gweiddi yn fy wyneb,
 Minnau heb ddim i dalu iawn,
 Ond yr Iesu ar Galfaria
 'Roddodd iddi daliad llawn.

I dalu dyled pechaduriaid,
 Arfaethwyd ef cyn seilio'r byd ;
 Mae ynddo nerth i ddofi'r gyfraith,
 Tu ag atta'i'n llwyr, er maint ei llid ;
 Fe ddioddefodd ar Galfaria,
 Nes ca'dd y ddeddf ei thaliad llawn,
 Ac fe wnaeth i'w Dad lefaru,
 Ei fod wedi derbyn Iawn.

Wrth wel'd leied sy' arna'i o ffrwythau,
 ,R wy'n c'wilyddio i raddau maith,

Pan elwy' i geisio rhifo'r dyddiau,
 'R wy' mewn enw gyda'th waith;
 Megis plentyn yn yr 'wyddor,
 Wyf, heb fedru dim yn iawn,
 Pryd mae eraill o'm cyfoedion,
 A'u gwedd yn llon a'u llestri'n llawn.

Os d'wedaf pa'm na bawn i ddoethach,
 Wele yn union dyna yw,
 Na bawn i'n gofyn yn fanylach,
 Am gael cymhorth gan fy Nuw
 Yr hwn sy'n rhoddi yn haelionus,
 Ac heb ddannod dim erioed;
 Rho nerth i'r waela' dan y nefoedd
 I ddodi allan air o'th glod.

Mae 'ngelynion yn allanol,
 Ac yn dufewnol bob yr awr,
 Bron a chael fy enaid egwan
 O t'n eu traed yn llwyr i lawr:
 Nid wy'n teimlo nerth na meder,
 'N awr'r wy'n ofni colli'r ma's,
 Oni 'mweli mewn tosturi,
 A fy nerthu trwy dy ras.

H Y M N 7.

WEL dyma fi bechadur mawr,
 Fel un yn disgwyl am yr awr,
 Am gael un olwg ar dy wedd,
 Cyn imi fyn'd i byrth y bedd.

Nid ydwyf ond pererin gwael,
 Ond hyn o gysur wyf yn gael,
 Dy allu mawr a'th nerthol ras,
 All dd'od a'm henaid llesg i ma's.

Hymn 8.

O AM nerth i bara' 'n ffyddlon,
 Yn wyneb pob rhyw groes,
 'R wy'n gweled cysur ddigon,
 Yn haeddiant augau loes;
 Ac er ein bod dan gwmwl,
 Diau y gwawria'r dydd,
 I'r rhai a bery'n ffyddlon,—
 Hwyl gânt eu rhoddi'n rhydd.

O na chawn fwy o hiraeth,
 Am wedd ein priod cu,
 Fu yma gynt tan holion,—
 Mae'n awr yn eiriol fry;
 O fewn i'r nef mae heddyw,
 Ar ddeheulaw y Tad;
 I bob pechadur aflan,
 Mae'n cynnyg pardwn rhad.

Mewn byd o demtasiynau,
 O, dirion Frenhin ne',
 Rho gymhorth i eiddilod,
 I sefyll yn eu lle:

Mae byd a chnawd a diafol,
 O'u blaen fel arfog lu,
 Er gwaetha' rhai'n hwy safant,
 Ond cael dy gymhorth di.

O anwyl Dad trugarog,
 'R wy'n clywed arnaf chwant,
 I gael gen't ti wybodaeth,
 Fy mod yn un o'r plant,
 A gânt fod yn y diwedd
 Oll ar dy ddeheulaw,
 Y rhai ni ddaw i'w cyffwrdd,
 Dros byth na phoen na braw.

'R afradlon pan ddaeth adre',
 Er bod yn crwydro 'mhell:
 Fe gafodd y wisg oreu,
 Nid oedd modd cael ei gwell;
 Bu'r ddafad yn golledig,
 Er hyn i gyd hi gaed,
 Pwy wŷyr na olchir finnau,—
 Mae rhinwedd yn ei waed.

HYMN 9.

O NA fedrwn gadw'm hyspnyd.
 I fyfyrion pethau'r bywyd,
 Ac am boen ein Harglwydd Iesu,
 Pan oedd ar y pren yn prynu.
 Er gorfod yfed cwppan chwerw,
 Fe fu'n ffyddlon hyd ei farw;

Fe ga'dd y ddeddf ei chwbl daliad,—
Y goron byth fo ar ben ein Ceidwad.

Wrth feddwl am y noswaith rewlyd
Bu'n yr ardd a'i chwys yn waedlyd,
Mae fy enaid yn hiraethu,
Am gael cynhorth i'w was'naethu.

'R wy'n cofio am ei 'madrodd tyner,
Pan oedd ei enaid mewn cyfyngder,
Tan lid ei Dad am feiau dynion,
D'wedai i fod yn gwbl foddlon.

HYMN 10,

WEL, dyma forau Sabbath newydd,
'N ol treulio'n ofer lawer un;
O Arglwydd dyro gymhorth heddyw,
I ogoneddu Mab y Dyn;
Mae fe'n gyfaill dâl ei garu,
A rhoddi iddo berffaith glod,
Fe fu ar y pren yn dioddef
Dros fy meiau cyn fy mod.

HYMN 11.

WRTH wel'd fy nghyd-gyfeillion.
Yn gorfod *landio* draw,
Nid wy' ddim llai nâ chlywed
O fewn i'm henaid fraw;
Heb wybod yn ddiammau,
I b'le mae'u 'neidiau 'n myn'd;

Ond yn yr oriau cyfyng,
O Dduw bydd imi'n *ffrind*.

Pan fyddwyf yn wynebu,
Yr afon donnog fawr,
O Geidwad bydd i'm helpu,
Rhag imi suddo i lawr;
Ac oni byddi di ynddi,
I'm dwyn i trwyddi'n llon,
Fe gwypf fy enaid eiddil
Yn firwd yr afon hon.

Nid oes i ni ddim meichiau,
Yr ieuainge mwy na'r hen,
Cawn deimlo dyrnod angau,
Pan ddêl ein dyddiau i ben;
Ni's gwyddom pa mor fuan,
Y cawn ein torri i lawr,
Ond dylem fod yn barod,
Bob munyd yn yr awr.

HYMN 12.

TARFEDIG wyf fi
Ond bugail wyt ti,
O dychwel fi etto, a gwrando fy nghri;
A golcha fi'n wŷn
Yn afon y bryn;
Ti gai y moliant tragwyddol am hyn.

Un aflan wyf fi,
 Ond ffynnon wyt ti,
 A i ffrydiau yn golchi, er cysur i mi;
 O dychwel fi'n awr,
 O'r t'w'llwch sydd fawr,
 A dyro im' 'nabod rhyw ronyn o'r wawr.

Marweiddiad i'm cnawd
 Yw cofio am y brawd,
 A fu ar Galfaria tan boeredd a gwawd:
 Ei 'nabod yn rhan
 A'm eyfyd i'r lân
 O ganol fy ofnau er nad wyf ond gwan,

Drws y defaid yw 'fe,
 Ffordd union i'r Ne';
 Na âd im' gymmeryd gau noddfa 'n ei le;
 O am 'nabod gwir ffydd,
 A'r cariad mawr sydd,
 Ar bob temtasiynau yn ennill y dydd.

RHAN II.

HYMN 13.

O NA chawn i nerth i sefyll
Yn llwybrau etifeddion gras,
A chael grym i alw'r Iesu,
I'm dwyn o'r anial maith i ma's ;
Mae'n Gynhaliwr cryf i'r gweiniaid,
Ac yn rhoddwr hael i'r tlawd,
Byth ni fedraf gael un cymmaint,
Mae yn Frenin, ac yn Frawd.

Mae ambell brofedigaeth chwerw
I'w chael gan ddynion yn y byd,
Nid yw rhai'n ond megis heddyw,
'Mhen gronyn bach hwy ânt i gyd ;
O am olwg ar y meddyg,
Sy' o bob clefyd yn iacháu ;
Mae'r sawl a gafodd brofi o'i gariad,
Tan bob rhyw groes yn llawenhau.

'R wyf mewn byd o demtasiynau,
'R wyf mewn byd o wagedd cas,
O Dduw rho imi nerth i deithio,
Nes myn'd i'r wlad sy'n llawn o ras :
Y mae ynot ras digonol,
I gadw'r gwaela' o ddynol-ryw ;

Pechadur wyf rhy wan i deithio,
Os na chaf gymhorth gan fy Nuw.

Wrth im' rodio ar hyd y ddaear,
A gwel'd gwaith yr Arglwydd nef,
Yn wir yr wyf yn gorfod tystio,
Nad oes gyffelyb iddo ef;
Wrth edrych ar y greadigaeth,
R wy'n gwel'd ei allu ef yn fawr,
Ond mwy yw'r syndod iddo godi
Dyn oedd wedi syrthio i lawr.

HYMN 14.

MI welaf mai un graslon,
Yw tirion Frenin ne',
'R wy'n methu gwel'd cyffelyb,
Mewn un-man iddo fe;
Yn wyneb pob rhyw wendid,
Mae fe'n cyhoeddi' ma's,
Fod digon i gredadyn,
O rinwedd yn ei ras.

Mae'n hamser yma'n darfod,
Fel gwlith o flaen yr haul,
Y mae hi'n bryd ymofyn,
Am haeddiant Adda'r ail;
'D oes neb ond ef ei hunan,
All wneyd ein rhwymau'n rhydd;

O cyrchwn bawb tu ag atto,
Cyn myned heibio'r dydd.

Mae'r nos yn do'd yn fuan,
Am ddal ein henaid gwan,
Am hyny'n awr ymdrechwn,
I geisio myn'd i'r lân;
I'r gweiniad mae Brawd cadarn
Yn eiriol yn y nef,
A'r gwannaf sy'n 'wyllysio,
Gaiff gymhorth ganddo ef.

HYMN 15.

NID ydwyf fi ond eiddil gwan,
Ond digon yw fy Nuw i'm rhan;
Trwy haeddiant mawr ei gariad gwir
Fe'm dwg yn iach o'r anial dir.

Er cael blinderau yn y byd,
A themtasiynau blin o hyd,
Er gorfod myn'd trwy boen a braw,
Diangol fyddaf yn dy law.

HYMN 16.

ER cymhell i ni roddi
'N haelodau'n ebyrth byw,
Sanctaidd, a chymmeradwy,
Yn mhur wasanaeth Duw,

Rhai cyndyn a gwrthnysig
 Mae'r Arglwydd yn ein cael ;
 Er hyn mae'n anfon eilwaith,
 Genadon at rai gwael.

Mae gormod o gyd-ffurfiad,
 Yn f' agwedd i â'r byd ;
 O na chawn ymnewidio,
 I 'mado â hwynt i gyd,
 Fel gallwyf dd'od i ddeall,
 Perffaith ewyllys Duw,
 Fe fyddai hyn 'n ddigon
 O gymhorth i mi fyw.

Yn llawen gan obeithio,
 A'm gobaith yn fy Nuw,
 Dioddefgar mewn cystuddiau,
 Os ynddynt rhaid 'mi fyw ;
 Yn ddyfal mewn gweddiau,
 Am godi'm serch a'm bryd,
 Na fyddwf byth yn foddlon,
 Heb gael y trysor drud.

HYMN 17.

BYDD newydd ryfeddodau
 Yn nydd y cyfrif mawr,
 Pan fyddo'r haul yn duo,
 A'r sêr yn syrthio i lawr ;
 Bydd dw'r y môr yn berwi,
 A'r byd yn llosgi o dân ;

Pryd hyn bydd tylwyth Seion,
Yn seinio peraidd gân.

Fe fydd yr annuwiolion,
Ag arnynt olwg drist,
Yn gorfod d'od â'u cyfrif
I wyddfod Iesu Grist :
Fe fydd eu gliniau'n crynu,
A'u gwyneb fydd yn ddu
Rhyfeddaf byth heb ballu,
Os gwell y gwelir fi.

Digofaint Duw a ddisgyn,
Ar yr annuwiol rai,
Cydwylbod wedi deffro,
A honno'n coffa'r bai,
Wrth hyny aiff yn danllwyth,
Rhyfeddol fydd y loes ;
Rhy hwyr i waeddi am gymhorth,
Trwy haeddiant gwaed y groes.

O deuoch bawb i'r un-man,
A dyma fyddo'n cri,
Am Iesu Grist ei hunan
Yn Frenin arnom ni ;
Rho'th 'nabod yn Offeiriad,
I aberthu tros ein bai,
A rho ini nerth i'th garu,
Nas gallwn wneuthur llai.

HYMN 18.

Y MAE fy enaid eiddil,
 Yn trwm och'neidio'n drist,
 Yn teimlo 'nghalon gyfan
 Wrth goffa am ddryllio Crist :
 O pa'm na byddai dagrau
 Yn llifo ar hyd y llawr,
 Fel y bu gwaed fy Arglwydd,
 O'r chwech i'r nawfed awr.

Mae arnaf chwant i ddiolch,
 Tra fyddwyf ar y llawr,
 Am wledda gydâ'r eglwys
 Sydd yn y tywydd mawr :
 Er bod y tonnau'n gryfion,
 'R wyf yn hyderu'n wan,
 Y caf fi nerth i 'hedeg
 Ar aden ffydd i'r lân.

HYMN 19.

NID cael nefoedd wedi marw
 Yw'm holl ddymuniad ar fy nghân,
 Ond cael yspryd pur i'th foli,
 A 'mado â phob drygioni'n lân ;
 Nid un pleser ar y ddaear,
 Wna'n y diwedd ond y boen,
 Os na chaf fi ymbleseru
 Y'ngwasanaeth Duw a'r Oen.

O sugna 'meddwl bob yn ronyn,
 I dd'od i 'mddiried ynot ti,
 A gado'n ol bob rhyw eilunod
 Sy'n awr yn congcro f'ysbryd i ;

'R wy' wedi gadael iddynt lechu
 Yn fy mŷnwes lawer pryd,
 Ac nid oes dim a'u cliria ymaith,
 Ond golwg ar dy haeddiant drud.

Os caf gymhorth i'th wasnaethu
 Tra b'wy'r ochor hyn i'r bedd,
 Mi wn y bydda'i'n mhlith y teulu
 Sy'r ochor draw yn hardd eu gwedd,
 Heb frycheuyn na dim crychni,
 Na'r cyffelyb arnaf fi,
 Ond seinio Hosanna, Haleluia,
 O glod i'r Oen fu ar Galfari.

Am nerth i ddiolch'r wy'n hiraethu,
 Fod Bugail i'r tarfedig rai,
 A'i fod yn Frawd i eiriol trostynt,
 A'i fod yn Dad i faddeu'u bai,
 A'i fod yn Yspryd Glân i rod-di
 Nerth i'r gwan i dd'od y'mlaen;
 Yn ei law yr un ni syrthiodd
 Mewn ystormydd dw'r na thân.

H Y M N 20.

'R WYF yn teimlo rhyw gystuddiau,
 Yn taro'n fynych ar fy nghnawd,
 A'm hyspryd hefyd sy'n gystuddiol,
 Pan gollwyf wedd fy anwyl Frawd;
 'R wy'n cael pleser ambell fynydd
 Wrth gofio'r wledd sy'n nhy fy Nhad,
 Pan ddel plant afradlon adref,
 Pwy wŷr na chaf fi wir iachâd.

'R wyf yn teimlo rhyw gystuddiau,
 Wrth im' ddringo creigiau serth;

'R wyf wedi tynnu trwy droseddu,
 Ryw orchudd rhyngwyf â dy wedd,
 Nid oes a'm cliria heb gael haeddiant
 Yr addfwyn Oen fu'n drangc i'r bedd.

'R wyf yn ofni ar rai prydiau,
 Fod angau yn fy ngwasgu 'mlaen,
 Ac nad wyf ond megis soffyn,
 O flaen Duw sy'n ysol dân :
 Ac yn yr olwg wael druenus
 Wyf yn weled arnai'm hun,
 Mi welaf olwg ogoneddus
 Ar Gauol-wr rhwng Duw a dyn.

'R wy'n methu och'neidio na gweddio,
 O fy mlaen mae'r ffordd yn cau ;
 Ond dyna'r gair sy'n gysur genyf,
 Os mynni, ti elli fy nglanhau ;
 'D oes geny'r awrhon ond distewi,
 Yr wyf yn methu ar bob tu ;
 P' un bynag wnei ai maddeu ai damnio,
 Bendigedig fyddi di.

Hymn 24.

ER fod angau wedi 'mygwth,
 'R wyf wedi 'ngado'r fwyddyn hon ;
 Arglwydd dyro'th bresennoldeb,
 A'm cwyd i'n awr yn uwch nâ'r dôn ;
 Cadw orchwyl ar fy ysbryd,
 Fel y delwy' i weld yn glir,
 Nad wyt debyg i'r ffigysbren,
 Ydoedd yn diffrwytho'r tir.

'R wyf yn ofni gan fy ngwywdra,
 Nad wyf ond hedyn ar y graig,

Ac na chefais mewn gwirionedd,
 Eriœd adnabod Had y Wraig ;
Ond os felly'r wyf hyl heddyw,
 Diolch byth mae etto le :
Fe ga'dd filoedd o rai aſan,
 Eu cânu'n wynion ganddo 'fe.
Nid gronyn llai mœ'i rinwedd etto,
 Na'r awr y bu fe'n dwyn ei groes,
Y mae miloedd o fendithion,
 Yn 'stôr yn haeddiant angau loes ;
O na chawn i nerth i reddi
 'Mhwysau'n hollol ar y Gwr,
Ddeuai i'm cynal trwy'r Iorddonen,
 Ac â dorrai rym y dw'r.

HYMN 25.

MI wn na ddylwn anfodloni,
 I ragluniaethau 'm tynu' lawr ;
Ond mi ddylwn drwm alaru,
 Am bechu'n erbyn Daw fôr fawr :
Arglwydd rho im' nerth i garu,
 A gogoneddu'r Gwr a'm gwnaeth,
Ac wrth ddarllen dy efengyl,
 Rho im' sugno mel a llaeth.
Pan fo rhagluniaeth arna'i 'n gwgu,
 Yn haeddiant Iesu gwelaf le,
I droi fy wyneb am gysuron,
 Yn union at ei orsedd E',

Dan weiddi dyro im' fendithion,
 Sydd yn angen arna'i 'n awr,
 N'ad im' roddi dim o'm hyder
 Ar drysorau gwael y llawr.

Mae genyt drysor mwy dymunol
 I'w gyfranu i dy saint ;
 'Sawl sy'n gofyn sydd yn derbyn,—
 Dyro i mi wel'd y fraint
 O gael ymostwng wrth dy orsedd,
 Nid oes arnaf eisiau mwy,
 Ond gweiddi maddeu'r holl anwiredd,
 Ti gefaist Iawn trwy farwol glwy.'

HYMN 26.

RHYW faich o euogrwydd du,
 Wyf yn ei deimlo'n awr,
 O achos rhodio'n groes
 I ddoddf y Brenin mawr :
 Hiraethu'r wyf am nerth i dd'od
 I fedru rhodio er ei glod.

HYMN 27.

WRTH edrych ar fy llwybrau,
 Lle rhodiais ddyddiau hir,
 'R wyf yn cael yn y rhei'ny
 Le i ddigalonni'n glir ;
 Pan gaslwyf godi 'ngolwg
 I ben Calfaria fryn,

Mi welaf afon yno,
 A'i ffaydiau'n golchi'n wyn.

HYMN 28.

MAE fy nyddiau bron a darfod,
 Dyro im' gydnabod hyn,
 A rho i mi sicrwydd cyn fy myned,
 Fod undeb rhyngwy' âg Iesu gwyn;
 Er gorfod myn'd i'r afon donnog,
 Ond cael gafael arno E',
 I'r gwaetha'r gelyn mwyaf creulon,
 Fe'm dwg i'r lân mewn hyfryd le.

HYMN 29.

ER i mi gael fy nghladdu,
 Gan frodyr a chan fyd,
 'R wyf etto'n rhyw hyderu
 Y dof i'r lân ryw bryd:
 Nid yw fy sail i'n gorphwys
 Ar ddim o'm gwaith fy hun,
 Ond bywyd a marwolaeth,
 A wisgodd natur dyn.

RHAN III.

HYMN 30.

ER c'leted yw fy nghalon,
Af y'mlaen, &c.
At orsedd Brenin Seion
Af y'mlaen :
Am fod ' fath Iesu hynod,
Mae'n rym i'r gwan i ddyfod
I 'mofyn am y cymmod,
Af y'mlaen, &c.
Ar sail y gwir gyfammod
Af y'mlaen.

'R wy'n ymladd â'm gelynion
Ar y maes, &c.
Oddi allan mae rhai creulon,
Ar y maes, &c.
Pan 'drychwyf ' mewn i'm calon,
Mae yno rai mwy creulon,
Am wneyd fy mrâd yn union,
Ar y maes, &c.
Mi waedda' am nerth yn eon,
Ar y maes.
O Gyfaill pechaduriaid,
Rho im' ffydd, &c.
Mae modd i olchi f' enaid,
Rho im' ffydd,

I gredu y dystiolaeth,
 Am drefn yr Iachawdwriaeth :
 Fe dalodd Brawd yn helaeth,
 Rho im' ffydd, &c.
 I gredu yn yr Aberth,
 Rho im' ffydd.

H Y M N 31.

WRTH feddwl am wynebu'r glyn,
 Sy y'mhen draw dyffryn f' oes,
 Heb olwg ar dy haeddiant di,
 Mae f' enaid i mewn loes.

Rwy'n ofni cael fy ngwasgu i lawr,
 Gan faich o euogrwydd cas,
 I le na welaf byth un wawr,
 Na chynnyg ar dy ras.

Pa fodd y bydd wynebu Duw,
 Wedi im' fyw mewn bai,—
 Ar ol im' fynych glywed son
 Am afon sydd ddidrai !

Ond etto heb gredu yn yr lawn,
 A dalwyd ar y groes,
 Fe fydd yno'r llid yn llawn :
 Nis gallaf draethu'r loes.

HYMN 32.

'R WYF yn clywed fod gorphwysfa
 Etto'n ol i bobl Dduw,
 A bod heddwch i'w gyhoeddi
 I'r sawl sy'u caru ei gyfraith wiw :
 Ond wrth droi'n ol i chwilio'r fynwes,
 'D wy'n cael ond llygredd ynddi'n llawn :
 Os caf gymmorth mi ddiolchaf,
 Am Oen Calfaria i dalu'r Iawn.

Rhoddi heibio gleddau'r Yspryd,
 Barodd i mi golled fawr ;
 Mae 'ngelyniou mwyaf creulon
 Wedi codi eu pennau'n awr ;
 'R wyf wedi colli yspryd gweddi,
 Yspryd gwylio ' giliodd draw,
 Mae'r tywyllwch i'm hamgylchu,
 'R wyn' ofni fod rhyw ddrwg gerllaw.

Dyro i mi gymmorth newydd,
 Nes im' dafu ' maich i lawr,
 Ac i ymdrechu gyda'r Angel,
 Nes y gwelwyf dorri'r wawr :
 Tywyned arna'i 'th bresenoldeb,—
 Pa le mae disgleirdeb mwy ? —
 Nes im' roi fy hun yn hollol
 I'r hwn ' ddioddefodd farwol glwy.

Dyma'r Gwr a wuawd yn bechod,
 I *glirio* natur dynolryw !

Edrychwch, gwelwch 'fath rysfeddod,
 Ein gwneuthur ni'n gyfiawnder Duw !
 Cawd Tri Pherson glân inewn undeb,
 Ac fe agorwyd ffordd mor ddoeth ;
 Fe gaw'd dyfroedd pur i'm golchi,
 A sanctaidd wisg i wisgo'r noeth.

HYMN 33.

*Y Pennillion isod a gyfansoddwyd pan oedd clefyd
 yn y tŷ.*

BETH yw'r wialen wyf yn deimlo,

A phwy sydd i'w hordeinio hi?—

Ai gwialen ydyw i'm ceryddu

Am ryw feiau sy ynof fi ?

Pa un ai dangos Craig yr oesoedd,

Lle ca'dd miloedd sylfaen gref,

Ac ar Galfaria ddangos Iesu

Wedi llwyr foddloni'r Nef ?

Mae rhyw ddadl yn fy mynwes

Am y clefyd sy'n fy nhŷ ;

Mae un yn haeru fod Duw'n gwgu

Am ryw feiau sy ynof fi ;

A'r llall yn gwaeddi, "Grym i ddioddef

Yn y tonnau ronyn bach,"

Mai clefyd ydyw i fy mhrosi,

Cyn fy ngwneud yn gwbl iach.

Mae un yn haeru nad oes genyf

Ddim ond lamp heb olew pur ;

A'r llall yn haeru nađ oes genyf
 Ddim a'm, deil y'ngwynneb eur;
 Ond presenoldeb Daw ei hunan
 Dyr y ddadl yn y fan,—
 Golwg arno wna i mi gredu
 Fod yr Iesu imi'n rhan.

HYMN 34.

RHYFEDDOD sawr oedd gwel'd y Dawdod

Yn dod i lawr mewn natur dyn :
 Agorodd ffordd i fyrdd gael cymmod
 Trwy gyfrif pechod arno ei hun.
 Boddloni'r nef, a rhoi anrhydedd
 I gyfiawnder a wnaeth E ;
 O na allwn roi gogoniant
 Am ei haeddiant iddo 'fe.

HYMN 35.

TRA b'wyf yma, dyfroedd Marah

Sy'n fy ffiol I o hyd :
 Pren fy Nuw a'u gwiw bereiddia :
 Iesu yw'm cysur oll i gyd,
 Er bod f'enaid mewn caethiwed,
 'Rwy'n ei weled ef yn wyn,
 Pa'm 'rwy'n ofni ? Cyfaill ydyw
 Fydd yn glynu yn y glyn.
 Hiraethu 'rwyf am gael fy ngelchi,
 A fy nghánu fel y gwlan,

Hiraethu mwy am wel'd y boreu
 Caf fyn'd at fy Mhriod glân.
 Caf yno syllu ar y Person
 Gym'rodd arno natur dyn.
 A gweled miloedd yn llawn moliant
 Yn ei haeddiant ef ei hun.

Rhyfeddu wnafl, a mawr ryfeddu,
 A hyny i oesoedd rif y gwllith,
 Os gwelir finnau wedi 'ngwisgo
 Yn hardd yno yn eu plith.
 Seiniaf glod am ben Calfaria,
 Lle bu'r glorian fawr yn troi,
 Pan lefarwyd gair Gorphenwyd ;—
 Mae fy mywyd wedi ei gloi.

HYMN 36.

MI fu'm yn teithio dyffryn Baca,
 Ac yn teimlo sychder mawr ;
 Ond wrth gloddio'n ddyfal yno,
 Daeth defnynau o'r nef i lawr.
 Mi ges yfed yn fy syched,
 Cyn i'm henaidd golli'r dydd,
 Trwy'r addewid fod ein Bywyd
 I'r diffygiol yn rhoi ffydd.
 Aml gystuddiau, blinion groesau,
 Sydd i'm cwrddydd ar fy nhaith.
 Rho dy ras i ddifa'm llygredd,
 A'm gwnaeth mor oeraidd gyda'th waith.

Rho imi ysbryd adnewyddol
 I fyw'n grefyddol ddyddiau f'oes,
 A rho ffydd i'm dal i fynu
 Rhag gwar-grymu dan y groes.

HYMN 37.

'RWYF yn teimlo 'nghóf yn pallu
 A'm deall sydd yn fychna iawn ;
 A dyddiau foes yn myned heibio,
 A'm llestr I eto heb fod yn llawn.
 Arglwydd dyro'r olew grasol
 I'm goleuo yn y glyn.
 Gwisga 'm henaid â'th gyfiawnder
 Sydd yn ddysglaer, glân, a gwyn.

Os caf hyny 'rwy'n boddloni
 I ado ar ol y wisg o gnawd,
 A myned i orwedd i ystafell,
 Heb un cyfaill, chwaer, na brawd.
 Rho i mi fodd i waeddi Conwest,
 Ac heb ofni brwydr mwy :
 Ond canu clod i Awdwr bywyd
 Heb na chlefyd, byth na chlwy.

'Rwyf yn myn'd i deithio llwybr
 Na ddychwelaf byth yn ol,
 O ! gafael ar y Cyfaill hyfryd
 I'm cymeryd yn ei gól.

Mae fy enaid mewn gorthrynder,
 Wrth wel'd y dyfnder sy'n y dŵr,
 Nid oes dim a'm gwna yn dawel
 Ond gafael ar y Canol ŵr.

Chwal gymmylau cysgod angau
 A dy bresenoldeb glân ;
 A dwg fi i fynu i blith y teulu,
 Na fydd diwedd ar eu cân.
 Nid oes yno neb yn wyllo
 Ond cofio eu Priod fu ar y pren.
 Cyd-addoli heb neb yn ofni
 Yw gwaith y llu tu draw i'r llen.

HYMN 38.

GRAWNSYPIAU'r wlad sydd felus iawn
 Ac arnynt cawn ymborthi ;
 Y wledd sy'n barod, bwrdd sy'n llawn,
 Am hyn awn tuag atti.

Gan waeddi, Iesu, moes dy law,
 A thyn fi draw o'r d'rysni ;
 I'r Ganaan rad, fy enaid rhed,
 Mae'r dyled wedi ei dalu.

HYMN 39.

Y puraf un yn bechod wnaed
 Er cyfiawnhad pechadur ;
 Iawn gan ein Meichiau gwiw a gaed,
 A'i waed yw sail ein cysur.

DAELUNIAD TRI CHRISTION O'R ANG-
AU A DDEWISENT.

RWYF yn fynych yn myfyrio,
Am yr awr rhaid i mi 'mado,
A gado ar ol berth'nasau cnawdol,
Wrth hedfan draw i'r byd trag'wyddol.

Gado 'nol yr hen gyfeillion
Sydd yn anwyl fydd yn union.
Mewn cyfyng awr bydd pawl yn cefnu,
'Does gyfaill ffyddlon ond yr Iesu.

Pan ddelo'r amser imi 'mado,
Mae fy enaid yn dymuno
Cael peidio dioddef hirfaith gystudd,
Ond myn'd i'r nef o'm poen yn ebrwydd.

'Nawr â'm brodyr yn ymddiddan,
Am berl sydd well nag aur nac arian ;
Yna ar aden ffydd ymgcdi,
Pi wlad 'rwy'n tynu 'nawr tuag atti.

Dymunwn innau fod yn barod,
A goddef cystudd am ddeng niwrnod ;
Ac wylu edifeirwch dibrin,
a fy meiau o flaen fy Mrenin.

'Rwy'n gwel'd fy meiau yn aneiri,
 A hyny'n peri im' ddigaloni ;
 Teimlo 'rwyf fy nerth yn pallu,
 A'm synhwyrâu bron ymdd'rysu.

Nid wy'n ofni *loesion* angau,
 Ond ofni edrych ar y biliau :
 O ! na chawn I rym i gredu
 Mai fy Meichiau ydyw'r Iesu.

Na âd fi'n hir o dan y cwmmwl,
 Ond rho i mi olwg ar Eiriolwr ;
 Dros bechadur mae E'n pledio,
 A chladdu bai mewn môr o augho'.

Yr addfwyn Oen fu yn y preseb,
 Rho ini gael o'th bresenoldeb ;
 Mi ddymunwn gael dy freichiau
 Oddi tanaf yn y tonnau.

Cofio 'i ddwylaw pur dan hoelion,
 Sy'n malurio 'nghaled galon ;
 Ond cofio ei dd'od o'i fedd i fynu
 Sy'n fy nerthu i orfoleddu.

Dymunwn innau gael hir gystudd,
 A blodeuo fel almonwydd ;
 Dysgwyl wrth ei borth mewn 'mynedd,
 Ac yno brofi o'i haelionwedd.

Rhoi hyny'n gordial i'm cyfeillion,
 Sy'n dringo fry dros riwiau geirwon ;
 I ddod yn mlaen heb ddigaloni,
 Mae yma olew yn dyferu.

Er bod yr afon yn ymchwyddo,
 Mi welaf f'Archoffeiriad yno ;
 A ddeil fy mhen uwch brig y tonnau,
 'Mhen gronyn bach fe wawria'r borau.

Mi wela'r porthladd teg, dymunol,
 Sydd ar ororau'r Ganaan nefol.
 Glanio wnawn ar fyr yn llawen,
 Un galluog yw ein Cadben.

Ffydd a gobaith yn gweithredu,
 A'r cariad pur ddaeth oddifynu,
 Yw'r hwylbrenau ar fy llestr,—
 Byth ni suddaf yn y dyfnder.

Cawn wel'd y Brenin ar ei orsedd,
 Yn nghanol myrdd o blant trugaredd ;
 A chyda'r dyrfa cydaddolwn
 Ef, a rhin ei ras adroddwn.

MARWNADAU.



M A R W N A D

*Ar ol Mr. ROBERT JONES, Pregethwr gyda a'r
Trefnyddion Calfinaidd yn y Wyddgrug, gynt o
Ddinbych.*

—
“Y cyfiawn fydd byth mewn Coffadwriaeth.”
—

TRWM yw'r galar 'rwy'n ei deimlo
Ar ol fy Mrawd sydd wedi huno ;
Hedeg wnaeth i'r byd trag'wyddol,
A gado yma ar ol ei bobol.
Fel perarogl oedd e'n yr Eglwys,
O hyd a'i rediad i baradwys :
Wrth gofio ei ddoniau a'i ymddiddanion,
'Rwy'n teimlo hiraeth ar fy nghalon.
Ceryddu wnai yr afreolus,
A chodi'r gweiniaid yn ofalus,
Trwy ddangos grym yr addewidion,
A dweyd fod haeddiant Crist yn ddigon.
Mae wedi bod yn gyfaill ffyddlon,
A gwneuthur 'sgil i godi Ysgolion ;
Trafaeliodd lawer ar y Sabboth,
A gwnaeth ei ran i ddyngu'r annoeth.

I'w Feib dymunaf yn eu bywyd
 Gael yn llawn ddau barth o'i yspryd;
 Dawn pregethu ac ysbryd gweddi
 Fyddo'n dilyn yn ei deulu.

Trwm heb gellwair oedd ei golli,
 'Rwy'n gwel'd ei le 'fe heb ei lenwi.
 O Dduw rho ysbryd i'n bugeiliaid
 I ofalu am borthi'r defaid.

Tueddol ydym oll i grwydro,
 Rho iddynt galon i'n bugeilio,
 A'n rhwymo i gyd mewn rhwymyn cariad
 Hyd y diwedd heb 'madawiad.

Cadw ni rhag gwreiddyn chwer'der,
 Mae hwn wrth dyfu'n llygru llawer,
 Rho in' gyd afael yn y rhaffau,
 A gwaeddi 'Fyn ni 'maes o'r tónau.

ROBERT JONES sydd wedi 'mado,
 'Does genyf mwyach ond ei gofio:
 Bu raid im' gilio i ffordd mewn galar
 Wrth wel'd rhoi gorph ef yn y ddaear.

O cofia'i anwyl wraig a'i feibion,
 A gafodd golled am un tirion;
 Ar ol gweddio a'u cyngori,
 Mae 'i gorffyn tawel wedi tewi.

Goelio 'rwyf fi fod ei ysbryd
 Wedi cyraedd gwlad y gwynfyd,
 Lile na ddaw na phoen na gofid,
 Ond tragwyddoldeb di gyfnewid.

Yn lle iechyd fe ga'dd gystudd,
 Cyn cyraedd bryn Caersalem newydd:
 Llawenu 'rwyf wrth gofio'r boreu
 Y ca'dd e làn yr afon angeu.

'R wy'n dych'mygu gwel'd angylion
 Wedi d'od i lan yr afon,
 I'w 'nol ef adref at ei Briod,
 Wedi ei buro oddiwrth ei sorod.

Mae yno seintiau ac angylion,
 A phawb am roddi 'lawr ei goron,
 Wrth weled coron y gogoniant,
 A myrdd mewn heddwch yn ei haeddiant.

Fy anwyl frodyr nid rhaid ini,
 Er colli ein brawd, mo'r digaloni,
 Mae Brawd yn fyw, fu gynt yn farw,
 Fe'n cynnal ni yn y tywydd garw.

O am nerth i waeddi'n eon,
 Ar ei ben ef byddo'r goron:
 Fe wnaeth waith ar ben Calfaria
 Sy'n destyn canu Haleliwia.

M A R W N A D

*Ar ol Mr. DAFYDD JONES, Pwll melyn, henafgur
nodedig mewn duwioldeb; ar yr hwn y syrthiodd yr
yr olyn galch, ac a'i lladdodd.*

CLYWAIS newydd trwm galarus,

Ac o'i herwydd rwy'n ofidus :

Am frawd anwyl ddylgwyd adreu

Mewn cerbyd tanllyd er ys dyddiau.

Nid yn unig yn y moddion,

'Roedd e'n agweddu megys crision,

Ond yn mhob man er clod i'r Iesu,

Cadw wnaeth ei wisg heb lygru.

Er 'weddi beraidd yn y borau,

Fe ddaeth brenin dychryniadau ;

A'i daro wnaeth â'i saeth heb arbed,

Nes gwahanu ei gorph a'i enaid.

Pan oedd ein brawd a'i gnawd yn rhostio ;

Fe gadd gymmhorth i weddio :

A gwel'd drwy fydd fod Iesu'n eiriol,

Yn ngolau dydd aeth at ei bobol.

Ar fryn Caersalem os edrycha,

Ca wel'd pob croes fu ar ei siwrna ;

Megys brychau wedi eu chwalu,

Trwy fywyd pur ac angau Iesu.

Mae'n awr yn diolch am y driniaeth,
 Gyda chwmmi glân a pherffaith ;
 Glod i'r Oen fu ar Galfaria,
 Mewu peraidd sain, a phur Hosannah.

'Rwy'n teimlo hiraeth ar fy nghalon
 Am ei weled yn y moddion ;
 Wrth droi fy ngolwg tua'r grisiau,*
 Ni allaf lai na cholli dagrau.

Lle bu yn gwrando geiriau melus,
 A'i " Amen " yn orfoleddus :
 Mae'n awr yn gorwedd yn y grafel,
 Wedi darfod poen ei drafel.

Pan bo'r udgorn mawr yn canu,
 A'r meirw o'u beddau 'n d'od i fyuu ;
 Fe fydd Dafydd Jones yn dyfod
 I fynu o'i fedd ar wedd ei biiod.

Fe fydd yn d'od gan gario palmwydd,
 A'i wisg fel ôd er clod i'w Arglwydd :
 Mae fy enaid yn hiraethu
 Am gael modd i gyl addoli.

Wrth fyfyrrio ar drag'wyddoldeb,
 'Rwyf fi'n gweled fy ffolineb ;
 Heb wybod dim 'rwyf yn cyfadde,
 Am y byd tu draw i angau.

* Gan fod yr hen frawd yn drwm ei glyw, arferai fod ar risiau y *pulpit* yn gwrando yn wastad.

'Rwy'n dych'mygu gwel'd yr Iesu,
 A llu o 'ngylion yn ei addoli ;
 A'i goron auraidd yn dysglaerio,
 A phawb o'r saint yn diolch iddo.

'Roedd Dafydd yma a'i gân yn felus,
 Mae fe'n awr yn orfoleddus ;
 Heb ddim pechod yn ei fino
 Wedi ei olchi yn lân oddiwrtho.

Yr hen bererin ga'dd fyn'd adreu
 O swm y byd a'i holl gystuddiau ;
 'Nol teithio'r glyn a chael goleuni
 I groesi'r ffrwd aeth at brophwydi.

I wlad o hedd a gwledd o addoli
 Nid oes un claf yn mysg y cwmni,
 Wedi eu *mendio* o bob rhyw glefyd
 Trwy rinweddau pren y bywyd.

Mae'r angylion yn cyd byncio
 Am eu cadw fry rhag syrthio ;
 Wrth wel'd rhai eraill mewn cadwynau,
 Ag oedd gyda hwy'n y dechrau.

Uwch fydd cân y saint rwy'n barnu
 Am eu galw ac am eu golchi ;
 Ac am gyfiawnder y Messia,—
 Dyna destun Haleliwia.

Wrth feddwl am breswylfa'r Drindod,
 Suddo'r wyf mewn môr o syndod;
 Ag yn rhŷ floesg i ddyweud am dani,
 'Rwy'n gweld mai doethach i mi dewi.

G A L A R N A D

Meddwl hiraethus uwch ben y difrod a achlysurid drwy doriad llifeiriant cryf i Waith Glo Plas yr Argoed, gerllaw y Wyddgrug, swydd Fflint, ar y 10fed o Fai, 1837; drwy yr hyn y bu farw Un-ar-hugain o ddynton.

BETH yw'r cynnwrf mawr a'r-wylo
 Sy'n ein hardal ni bob dydd?
 Wrth imi edrych draw ac yma,
 Mi wela' bawb o'r bron yn brudd.
 Un yn wylo am ei phlentyn,
 Ac un arall am ei gŵr,
 A'r llall yn gwaeddi am frawd neu gyfaill,
 Sydd yn y 'stafell gyd a'r dw'r.
 Y Gŵr a gauodd ddrws arch Noah,
 Gauodd arnynt, amlwg yw;
 Yn mhen tri diwrnod fe'i hagarodd,
 Ac fe gadwodd ddeg yn fyw.
 Un ar hugain ga'dd eu galw
 I fyn'd o flaen ei orsedd bur;
 Credu 'rwy fod rhai o'r rhei'ny
 Mewn noddfa glyd yn canu'n glir.

Maent wedi gadael y dystiolaeth,
 Fod yn eu lamp hwy olew pur;
 A'r enaid bach ehedai adref
 O'r corph a flinid gan aml gur.
 Hwy gawsant weled y Messiah,
 Fu ar Galfaria un prydnhawn;
 Ac ar ei wedd eu hysgrif ddi-goui,
 A llenwi o'i hedd eu llestri'n llawn.

O gyfeillion yr holl ardal,
 Neshawn yn ddyfal iawn at Dduw;
 Gan blygu'n isel wrth ei orsedd,
 Am faddeu camwedd rhai sy'n fyw;
 A chofio'u teulu rhag iddynt dd'rysu
 Rhoi iddynt nerth i gario'r groes,
 A chael eu plannu'n ngwinllan Iesu,
 A'i was'naethu ddyddiau'u hoes.

Boneddigion a'r gwŷr mawrion
 Gwna hwythau'n union yr un nôd:
 Maent eleni, am eu lusenï,
 Wedi haeddu helaeth glod.
 O Awdwr bywyd, dod dy Ysbryd
 'N arweinydd hyfryd iddynt hwy,
 I wneud eu cartref gyd a'th bobl,
 A'u cuddio yn dy farwol glwy.

Yn y pennillion isod mae yr Awdures yn crybwyll enwau rhai o'i brodyr hoff, rhodiad gwastadol y rhai oedd yn dangos i ba wlad yr oeddynt yn ymdaith: ac nid yw ei bod wedi esgeuluso enwi eraill, yn un prawf nad yw yn coledd meddyliau tyner am danynt hwythau.

FE ga'dd angau gennadwri
 I dd'od i winllan Duw i dorri;
 Ryw brenau i'r 'd, llawn o flodau
 Sydd wedi bod yn nôd i'w saethau.

'Roedd Thomas Jones yn rhodio'n weddus,
 Am waith yr Arglwydd yn ofalus;
 Yn ddyfal iawn yn mhob rhyw foddion;
 Ac yn mhob man ymddygai'n dirion.

'Roedd e'n gweddio hwyr a borau,
 A mynych iawn mewn dirgel fanau.
 Taer a fyddai wrth yr orsedd
 Am nerth i bara hyd y diwedd.

Cwynfan wrthyf byddai'n wastad,
 Mai isel oedd o ran ei brofiad:
 Ond dwys ddysgwyliai am ymweliad,
 'Gael golwg eglur ar ei Geidwad.

Yr oedd pob peth yn dangos ini
 Ei fod e'n innpin wedi i' blanu
 Yn yr eglwys filwriaethus;
 A'i golli oddiyno sy'n alarus.

Colled fawr sydd yn ei deulu,
 A'r Ysgol Sul sydd yn galaru.
 Pan f'o cyfarfod i weddio,
 Ni chawn mwy ei weled yno.

Dan y ddaear fe weddiai,
 Pan oedd yn agos iawn i angau,
 Gyda'r plant oedd yn ei gwmni,
 A ledio pennill iddynt ganu.

'Rwy'n methu peidio a dych'mygu
 Am y modd yr aeth e' i fynu ;
 Fod angel sanctaidd fry'n ei ledio,
 A phyrth y nef yn agor iddo.

William Williams, gyfaill tirion,
 Oedd yn agos at fy nghalon,
 Ce's bur ddyddanwch yn ei gwmni
 Wrth ymddyddan am yr Iesu.

Cyfarfod olaf bu'n gweddio,
 Nid â ar fyr ei weddi yn ango ;
 Taer bledio 'roedd, a methu tewi
 Nes cael gwllith y fendith drwyddi.

Yn ei ieuencyd ca'dd fyn'd adre'
 O swm y byd a'i holl gystuddiau ;
 Ar ei ol 'rwyf innau'n tynu,
 O am undeb gwir â Iesu.

Galaru 'rwyf am Robert Owen,
 Wrth gofio ei gyfarchiad llawen.
 Yn lle gwrando dan y pulpuad,
 Mae wedi cyrhaedd gwlad y gwynfyd.
 Ei dystiolaeth ef yn angau,
 Fod ei lamp yn para yn olau,
 Sydd gysur cryf i'w anwyl frodyr,
 I ynwroli yn y frwydyr.
 Yn lle galaru am gyfeillion,
 Dysg ni, O Dduw, ddefnyddio'r moddion
 Sydd fel pibellau 'n cludo'n helaeth
 O olew pur yr Iachawdwriaeth.

M A R W N A D

*O goffadwriaeth am y diweddar JOHN ELLIS, Aelod
 gyda'r Trefnyddion Calfinaidd yn y Wyddgrug, sef priod
 yr Awdures, yr hwn a fu farw Tachwedd 5. 1837*

TŌN—"DINIWEIDRWYDD."

MAE fy nghalon I mewn galar
 Wedi colli Cydmar cu,
 Na cha'i weled mwy o hono,
 Ddim ond cofio am a fu;
 Cyd yndeithio wnaem i'r moddion,
 Weithiau'r dydd, ac weithiau'r nos,
 Ac ymddiddan 'nol do'd adre'
 Am rinweddau gwacod y groes.

'Nawr 'rwy'n profi'r loes o'i golli,
 Fe ga'dd glwy' gan angeu a'i gledd;
 Fi sydd yma'n rhodio'n bruddaidd,
 Ac yntau'n gorwedd yn ei fedd!

Ond dyna'r man 'rwyf yn tawelu,
 Pan gofiwyf am ei sylfaen gref,
 Na'd oedd dim ond haeddiant Iesu
 Yn gweini cysur iddo ef.

Hiraeth mawr am fyned adre'
 Oedd ei gŵyn pan oedd e'n fyw,
 A chofio'n aml am yr afon
 Sy a'i ffrydiau'n llóni dinas Duw.
 Sylfaenu'r oedd ar y dystiolaeth
 Sydd yn helaeth ei mwynhad,
 A llawenhau wrth dd'weyd fod Iesu
 Wedi llwyr foddloni'r Tad.

" Pechadur wyf heb radd o rinwedd,
 Ond disgwyl wrth drugaredd rad,
 Trwy rinwedd hon 'rwy yn hyderu
 Y caf fi lwyr feddiannu'r wlad,
 A chael moli gyda'r miloedd
 A ragflaenodd arnom ni,
 Sy'n awr yn seinio'r beraidd Anthem
 O glod i'r Oen fu ar Galfari.
 Er imi ragflaenu ychydig,
 A'th ado'n unig yna'n awr,

'Credu 'rwyf cawn gyd foliantu
 Gyda'r Iesu uwch y llawr."
 Gofynais iddo'r diwrnod olaf,
 A'i isel oedd ei feddwl E.
 Ac yntau'n gwel'd fod dros ei bobol
 Iesu'n eiriol yn y ne ?
 Ei ateb oedd, "Nid wyf yn medru
 A gweithredu ar ddim yn iawn,
 Ac eto gwel'd mai'r un yw Iesu,
 A bod ei drysor ef yn llawn ;
 Mae ef yn ddiagon yn yr afon,
 Fe ddeil fy mhen i uwch y dw'r,
 Nid rhaid im' ofni loesion angan
 A'm pwysau ar y Canol ŵr."
 Edrych arno yn ei loesau
 Oedd i nheimpladau i'n rhoi clwy,
 A gwel'd fy mod yn myn'd i'w golli,
 Na chawn o'i gwmi ddim yn hwy.
 Cefais gymmorth uwch naturiol,
 A nerth i sefyll yn fy lle,
 I beidio d'wedyd dim yn yufyd
 Yn erbyn trefniad Brenin ne'.
 Er iddo fyn'd a'm hanwyl briod,
 A'm gado'n unig yma i fyw,
 Mi ddywedaf megis Eli,
 "Gwnaed a fynno, f'Arglwydd yw."

Er chwerwed oedd y loes i'w theimlo,
 Wrth ffarwelio gyda'm gŵr,
 'Rwy'n credu fod yr Archoffeiriad
 Wedi tori grym y dŵr;
 A'i freichiau tyner oddi tano,
 Nes ei ddwyn i deyrnas nef,
 Lle mae'r Brenin ar ei orsedd,
 A'r goron auraidd ar ei ben,
 A phawb o'r saint fu mewn caéthiwed
 Yn cael ei weled heb un llen.

Eu cyrff a godir ar ei ddelw,
 Ac heb ofni marw mwy,
 Ond llawenhau mewn byd trag'wyddol,
 A chanu am ei farwol glwy;
 Canu am goncwest pen Calfaria,
 A'r gair Gorphenwyd ar y bryn,
 A'r gyfraith wedi ei llwyr foddloni,
 Modd i olchi y dua'n wŷn;
 Ac wedi concro pob rhyw elyn
 A'u cyfarfu is y rhôd,
 A chyd deynasu gyda'r Iesu,
 Ac yn ei gwmni ganu ei glod.

Ni fedraf yma byth amgyffred
 Grym y cariad sy'n eu mawl,
 Wedi profi blas maddeuant,

Ac yn ei haeddiant gleimio'u hawl;
 Seinio Hosannah, Haleluiah,
 Gyda gwych angylion nef;
 Ni bydd diwedd ar eu moliant,
 A rhoi'r gogoniant iddo Ef,
 Yr hwn a'u prynodd, ac a'u golchodd,
 Ac a'u cadwodd trwy ei ras,
 I bara'n ffyddlon hyd y diwedd,
 A chuddio'n llwyr eu llygredd cas.

Bendithia di y weinidogaeth
 I'w hiliogaeth yn mhob lle,
 A dwg ein plant o'u dwfn gaethiwed
 I dy nodded, Frenin ne';
 Dyro iddynt gael meddiannu
 Crefydd bur a ddalio dân,
 Tywallt arnynt o'th drugaredd
 O dy sanctaidd Ysbryd Glân
 Fel byddont yn golofnau cedyrn
 Yn dy dŷ tra ar y llawr,
 Ac wedi gadaw'r fuchedd yma,
 Cael uno fry â'r dyrfa fawr.

Rhodli siamplau da o'u blaenau
 Oedd ei nôd hi ddyddian i hoes,
 Yn lle trafferthu, 'roedd yn deisyfu
 Am nerth i gredu yn ngwaed y groes.

Ni chaf yma mwy ei chwmi,
 Ni chaf yma wel'd ei gwedd ;
 'Rwyf yn deisyfu cael ei chwmi
 Yn y byd tu draw i'r bedd,
 A chael yno gyd foliannu
 Yr addfwyn Iesu fu ar y groes ;
 'Nol gado'r byd a i holl ofidiau,
 Bydd melus cofio angau loes.

Ar ei hol 'rwyf finnau'n teithio,
 Yn prysuro'n gyflym iawn ;
 Ni byddaf yma nemmawr bellach,
 Fe aeth arnai'n hwyr brydnhawn ;
 Ar fyr bydd edau frau fy einioes
 Wedi dirwyn oll i ben :—
 O am gael fy ngwneyd yn barod,
 Doed angau mwy pan ddel. Amen.

G A L A R G A N

*A gyfansoddiwyd ar farwolaeth ELIZABETH JONES,
 merch yr Awdures.*

O FY ngeneth, ti ddiangaist,
 Ac a'm gadewaist ar dy ol!

'Rwy'n hyderu bod yr Iesu
 Wedi'th gyrchu yn ei gôl,
 Uwchlaw'r byd a'i orthrymderau,
 Lle dioddefaist lawer loes,
 I blith y teulu sy'n moliannu
 Yr hwn fu'n gwaedu ar y groes.

"O fy mam, fu anwyl imi
 Pan yr oeddwn yna'n byw :
 Cym'rwch ofal wrth alaru
 Rhag troseddu'n erbyn Duw;
 Edrychwch ar ei ddoeth ddibenion,
 Mae'n Farnwr union yn y ne,
 A boddloni'n lle galaru
 Am yr hyn a gym'rodd le.

O na welech Dad'r amddifaid,
 A chofio ei addewidion pur,
 A rhoi hwy'n aml yn ei ofal,
 Efe a'u cynnal ymhob cur,
 A chofio hyny wrth eu magu,
 Eu dwyn i fynu yn ofn Duw;
 A rhoddi esiamplau da o'u blaenau,
 Rhag sathru ei ddeddfau tra bont byw."

Fy anwyl eneth, mae 'nheimpladau
 'N cael eu clwyfo'n fynych iawn,

Sydd yn pereiddio y pethau chwerwa'

Am cyferfydd is y nen.

Colli 'mhlant, a cholli nghymmar,

Au gosod yn y ddaear ddu,

Nid oes dim am gwna yn dawel

Ond cael gafael arnat ti.

Dymuna'i'r rhan sy'n ol o famser

I gael pob llwybr wedi gau,

Fel nad elwyf ar ol pleser,

Ond yn uuig dy fwynhau.

Edrych i'r Cyfammod boreu

Wnai y Tad mewn cariad llawn,

A gwel'd ein Brawd yn croesi'r biliau

Ar Galfaria wrth dalu'r iawn.

Pan gaffwyf radd o olwg arno

'Rwy'n anghofio'r byd o'r bron,

Ond rhyw awel bach o groes ragluniaeth

Am teifi i eilwaith dan y dòn;

Dysg fi i gredu dy addewidion,

Gwna hyny gadarnhau fy ffydd,

Os rhaid myn'd trwy rhyw dónau geirwon,

Y caf fi nerth yn ol y dydd.

MARWNAD

O goffawdwriaeth am y diweddar

Mr. ROBERT HUMPHREYS,

WYDDGRUG.

Fy anwyl frawd a hedodd adrau
O swm y byd a'i orthrynderau ;
Mae'n awr ar fryn Caersalem newydd,
Wedi gado gwlad y cystudd.

Fe fu yma dan y tonnau,
A'i gorff yn aml mewn cystuddiau ;
'Roedd ei enaid, 'rwyf yn credu,
Mewn cymdeithas gyd a'r Iesu.

Yn yr ysgol bu yn llafurio,
Ni gawsom golled fawr am dano ;
Wrth gofio'i addysg a'i weddiau,
Ni fedrwn lai na cholli dagrau.

Colled fawr sydd yn ei deulu,
Ei wraig a'i blant sydd yn galaru,
Wedi colli tad a phriod,
Mae cwlwm natur wedi dattod.

Yn eu trallod mi a'u cyngora'
I godi golwg i Galfaria ;
A thrwy ffydd i 'maflyd yn y Priod,
Na chaiff y cwlwm byth mo'i ddattod.

CAROLAU.

CAROL NADOLIG,

Ar y Dôn a elwir,—“DINIWEIDRWYDD.”

DYMA unig ddydd Nadolig,
I ni gofio'r Meddyg mawr,
Pan adawodd deulu'r Nefoedd,
A d'od i fwch o lwch i lawr :
'R oedd o'r dechreuad mewn derchafiad,
Uwch angylion pur y Ne',
Ond fe gym'odd ' fath ostyngiad,
Nes d'od fel dafad i'n deddf-le.

Fe aeth dynol ryw mor isel,
Yn yr Ardd, trwy'r codwm mawr,
Nad oedd modd i'w cael i fynu,
Yn holl drysorau daear lawr ;
Ond yn y dwyrain gwelwyd seren,
Ca'w'd y'Methle'm Fachgen bach,
Ceir gwel'd miloedd o'r Cenhedloedd,
Trwy'i rinweddol waed yn iach.

Y'ngghyflawnder mawr yr anser,
Iesu'n dyner ' ddaeth i'n byd,
O Fethle'm Judah i Galfaria,
Triniad chwerau a ga'dd o hyd ;
Rhow'd iddo finegr a bustl,
Wrth dalu'r gwystl ar y groes ;
Gogoniant byth i'n Brenin-tyner,
Dyoddefodd lawer math a'r loes.

Fe ga'dd yfed y gwppanaid,
 Er ei chwerwed, trwy fawr chwys ;
 Ni cha'dd Iesu ond prin godi,
 Na cha'dd ei gyrchu ' mewn i'r llys,
 Bu o flaen Pilat dan drwm holiad,
 A'i daro'n drwyad' oddi draw,
 A'i gyfeillion, anwyl union,
 Oedd yn bruddion iawn mewn braw.

Pan oedd Pedr yn ei wadu,
 Parhaodd Iesu i garu'n bur ;
 Fe weddiodd drog elynion,
 Dan yr hoelion duon dur ;
 Er ei *chwipio* drwy'r heolydd,
 Dyoddefodd beunydd dan y boen,
 A chadw ei enau heb agoryd,
 Fe'i harweiniwyd fel yr Oen.

Wrth gofio sanctaidd ben ein T'wysog,
 Dan goron bigog yn ein lle,
 Mae fy enaid yn hiraethu
 Am gael canu iddo 'Fe ;
 Ysgrifen-law yr ordinhadau,
 Yr hon oedd gynt i'n herbyn ni,
 Fe 'i cymmerodd, ac a'i hoeliodd
 Wrth y groes ar Galfari.

Trist yw yma,—ond mi wela'
 Ben Calfaria, clywaf floedd,
 Y Gyfraith wedi 'i llwyr soddloni,
 A'r Tad yn gwaeddi hyny ar g'oedd ;
 Pan oedd Ef yn cuddio 'i wyneb,
 Llef a glywyd is y nen,—
 Ond fe glyw'd y gair " Gorphenwyd,"
 Cyn i m bywyd grymu 'i ben !

Cofio'r ffynnon sydd yn felus,
 ' Agorwyd yn ei ystlys Ef,
 I olchi'r aflan adyn diras,
 A'i wneyd yn addas i fyn'd i'r nef;
 Rhyfeddod mwyaf o'r rhyfeddodau
 Wel'd yn diodde' wir Fab Duw,
 I wneud ein llwybr yn ddirwyr,—
 Dyma gysur eglur yw.

O! nad allem roi'r gogoniant,
 A hyny 'n wastad yr un wedd,
 I Grist am ddiodde' pwys ein beiau,
 Nes myn'd trwy boenau i waelod bedd,
 Ac ar ol hyny ei adgyfodi,
 A'i dra derchafu, felly fu;
 Cyn ei symud rhoes addewid,
 Y d'ai'r Dyddanydd attom ni.

N awr mae'n eiriol dros ei bobl,
 Yn ei nefol gartref clyd,
 Nes eu caffael byth o afael
 Holl elynion gwael y byd;
 Yn y diwedd daw mewn mawredd,
 Ar ei orsedd, fel eu Pen,—
 Gwneuthur llawer etto o'u nifer,
 Mewn da amser, f'o, *Amen*.

CAROL PLYGAIN,

I'w chanu ar y Dôn a elwir—"OLD DERBY."

O CANED trigolion yr holl-fyd,
 Daeth newydd tra hyfryd i'n gwlad

Am Faban pur, sanctaidd a anwyd ;
 Fe'i cafwyd trwy Ysbryd y Tad.
 Daeth Duwdod i wisgo dynoliaeth,
 Gwnaeth arni mor helaeth ei ól ;
 Trwy Adda yn Eden hi gollwyd,
 Trwy Iesu fe'i 'nillwyd hi 'nól.

Wrth drefnu cael Meichia i droseddwyd,
 Tri Pherson gyd seiniodd y swydd,
 Ni thalai ond T'wysog y bywyd,
 Am hyny fe'i rhoddwyd yn rhwydd ;
 'Nól dyfod cyflawnder yr amser,
 Mab bychan a aned o Mair,
 Rhyfeddod a beru'n ddiddarfod,
 Gwnawd dyndod yn unol â'r Gair !

Fe ganodd angylion y nesoedd,
 Rhyw foreu ar doriad y dydd,
 Wrth weled gostyngiad ein Ceidwad,
 I wneuthur ein rhwymau yn rhydd.
 O ! n'allem gyd ganu trwy gredu,
 Fod ffynnon iu golchi ni 'gyd,
 Trwy boenau ein Brenin a'u prynodd,
 Dioddefodd nes lladdoddd é'r lliid.

Dioddefodd yn ngardd Gethsemane,
 Nes chwysu defnyddau o waed,
 Pan gododd i'mwel'd á'i gyfeillion,
 'N lle gwyllo yn cysgu fe'u caed.
 Fe yfodd waelodion y cwpan,
 I wneuthur ewyllys y Tad,
 A'i gefn oedd dan gwysau tra hirion,
 Wrth wneud i rai caethion ryddhâd.

Daeth atto lu mawr o Iuddewon,
 A Judas anffyddlon i'w ffrynd,

I fynu cymmerwyd yr Iesu,
 At Pilat i'w farnu ca'dd fyu'd;
 Ac yno fe'i bwriwyd i farw,
 Fe boerwyd i'w wyneb pŵr lân,
 A'i bobl i gyd a'i gadawodd,
 A Pheŵr a'i gwadodd yn lân.

Gelynyon a'i gwisgodd â phorphor,
 Plygasant eu gliniau mewn gwawd, —
 Rhyfeddol na welid ein dagrau,
 Wrth gofio mawr boenau ein brawd,
 Nól myned i fynydd Calfaria
 Fe'i hoeliwyd yn greulon ar groes,
 A'i Dad ef a guddiodd ei wyneb,
 Pan ydoedd yn nyfnder ei loes.

Er cymmaint ein dyled fe'i talodd,
 A'n *biliau* a groesodd â'i waed;
 O'i wirfodd boddlonodd y gyfraith,
 Ni gawsom dystiolaeth y Tad;
 O'r golwg fe giliodd pob gelyn,
 Pan sigodd ef goryn y ddraig,
 Daeth Joseph i'w geisio i'w gladdu,
 Bedd newydd a naddwyd o'r graig.

Gogoniant! ail forau cyfododd,
 Ar augau fe gafodd y dydd,
 Ar sylfaen yr iawn mae fe'n eiriol,
 Nes cael ei holl bobl yn rhydd,
 Mae'n danfon Diddanydd i'w gwyllo,
 I ganol gorthrymder y byd,
 Daw eilwaith i'w galw i'r gwynfyd, —
 Anghofiant eu gofid i gyd.

Mewn Cariad cânt ganu'n oes oesoedd,
 I'w brenin a'u prynodd mewn pryd,

Ei t'lynau mewn hwyliau mor helaeth,
 Am drefn Iachawdwriaeth i gyd;
 Wrth gofio am y Drindod pŵr, sanctaidd,
 Arfaethodd fath fawredd i fod,
 'Rwy'u teimlo fy hun yn hiraethu,
 Na fedrwn i g'lymu iddo glod.

Daw miloedd o'i ddeiliaid yn ddilys,
 I wneuthuri ei eglwys yn llawn;
 Os cawn ninnau gyrhaedd Paradwys,
 Rhyw le gorfoleddus a gawn;
 A melus fydd cofio ein golchi,
 A'n gwneuthur mewn undeb â'r Pen;—
 Cawn nosio mewn hedd, yn ei haeddiant,
 Gogoniant a Moliant. Amen.

CAROL NEWYDD,

I'w chanu ar y Dôn,—“DUWG ADWO'R BRENIN.”

O DEUED pob Cristion cewch genyf gysuron,
 Cyd-ganwn o galon i gyd,
 O glod i'r mab bychan fu ar liniau Mair wiwlan,
 Daeth Duwdod mewn baban i'r byd:
 O ddyfnder rhyfeddod! O drefen y Duwdod!
 Trag'wyddol gyfammod a fu;
 I achub ffordd rasol i achub ei bobl,
 'Mostyngodd Duw freiniol oedd fry,—
 'Mostyngodd mor isel dan wreiddyn ein llygredd,
 Nes dyfod a'i agwedd fel gwas;
 Er llwyted y llety, er gwaeled y gwely,
 Fe anwyd yr Iesu trwy ras.

Pan anwyd y Bachgen, mor siriol fu'r seren,—
 Daeth doethion o'r dwyrain cyn dydd;

'Nol gair y prophwydi, hwy gawsant yr Iesu
 Yn Geidwad i'n rhoddi ni'n rhydd.
 Ond Herod annhirion, y gelyn o galon,
 Ac ymddwyn yn greulon a wnaeth.
 Ow ! mamau'r babanod, fe'u drylliwyd gan drallod
 Wrth ddyoddef trwy syndod y saeth .
 Er maint ei elyniaeth, yr oedd trefn Iachawdwriaeth
 A'i gallu yn fwy helaeth o hyd ;
 Er cymmaint o gynnwrf fwriadai'r hen fradwr,
 Byw eto yw Barnwr y byd.

Ni fedraf mewn geiriau fyth draethu mo'i wyrthiau,
 Rhy fychain yw doniau pob dyn ;
 Na'r seintiau sydd uchod, yn gwbl 'rwy'n gweled,
 Neb ond y Duw hynod ei hun.
 'Roedd mab y wraig weddw, ar elor yn farw,
 Fe 'mwelodd â hwnw mewn hedd ;
 Fe'i cododd i fynu, i'w fam ca'dd ei roddi,
 Yn lle myn'd i bydru mewn bedd.
 Bryd arall trwy wyrthiau'n troi'r dwr yn win gorau.
 Pam byddwn ni a'n bronau mor brudd ;
 Rhown arno ein pwysau er myn'd i nos angau,
 Cawn olau fel haul haner dydd.

Wrth gofio am ei loeseau yn ngardd Gesemane,
 Pwy galon na ddrylliai yn ddwy ;
 Er chwerwed y cwpan, fe'i hyfodd ei hunan,
 Yn lle'r aflan un glân aeth dan glwy.
 Daeth llu o Iuddewon, o d'wllwch fel deillion.
 Ei gym'ryd yn union a wnaed ;
 Fe'i dygwyd o daigwaith i'w holi'n dra helaeth,
 Dim achos marwolaeth ni chaed ;
 Ond fel 'roedd yn Feichiau, deffroi wnai'r cled dau
 A'i enaid hyd angau trist oedd :

Ein pechod yn pwyso, a Duw yn ymguddio,
Gan faint oedd yn fino rhoes floedd.

Fe waeddodd "Gorphenwyd," a'n dyled a dalwyd,

A'n biliau ni a groeswyd gan Grist ;

Llawenydd fydd eto, a moliant fydd iddo,

Gan filoedd wrth gofio'r awr drist :

Pan ddelo fe a'i Eglwys i'r buredig Baradwys,

Ei foli fe'n felus a fydd.

Fe ddaw a'i blant adrau o'r moroedd a'r beddau,

Oddiar angau fe'u rhoddir hwy'n rhydd.

Wrth gofio llawenydd sy'n Nghaersalem newydd,

Anghofio, rwy' 'nghystudd yn awr ;

Rwy'n ynddo'n ymddiried, fe'm dwg o'r caethiwed,

Hiraethaf am weled y wawr.

Rhown glod yn dragywydd, daeth hanes ein Har-

Mewn Testament Newydd i ni ; [glwydd

Mae seintiau, angylion, cerubiaid, 'run moddion,

Yn moli'r Ior cyfion Dduw Tri ;

Dymunwn o galon gael meddu'r un moddion,

I foli Duw'n fyddlon drwy fydd.

O dyro ini adnabod, er camwedd, fod cymmod

Trwy'n Priod, cyn darfod ein dydd,

I glirio ein heugrwydd sy'n boen i ni beunydd,

Ein Llywydd o tu draw i'r llen :

Mae hedd yn ei haeddiant, rhoi iddo'r gogoniant,

Mae miloedd mewu moliant, Amen.

CAROL PLYGAIN,

I'w chanu ar y dôn a elwir,—“OLD DERBY.”

DYNOLIAETH a grëwyd mor loyw,

Yn meddu ar ddelw'r pur Dduw ;

Yn wryw ac yn fenyw fe'u crewyd,

'N ngardd Eden gosodwyd hwy i fyw ;

Yn meddu ar berffaith sancteiddrwydd,
 A Duw oedd yn llywydd i'r lle,
 Yn rhodio 'ngoleuni ei wyneb
 Mewn purdeb, ac undeb âg E.

Yn fuan daeth Satan i'w tentio,
 Mor greulon oedd dysfais y ddraig,
 Ac yno 'mosododd e'n gyntaf,
 Ar y llestr oedd wana, sef gwraig ;
 Fe daerodd y byddent fel duwiau,
 Nes dallodd eu llygaid â llen ;
 Trwy wenwyn y gelyn hi goeliodd,
 Ymostyngodd nes profodd hi o'r pren.

Gwnaed hi yno'n offeryn mor hynod,
 Hi dynodd ei phriod i lawr :
 Hi roddodd, ac yntau gymerodd,
 Nes syrthiodd,—a'u cwmp a fu fawr :
 Ac yna ei lygaid agorodd,
 A gwe'odd mor uoethlwm yr aeth ;
 Cyflawnder a waeddodd i'w erbyn,
 Ac arno mawr ddychryu a ddaeth.

A ninnau fel deilen gyd syrthiodd,
 A'n cyflwr mor isel ei le,
 Nad oedd trwy holl gyrau'r gre'digaeth,
 Byth obaith cael myned i'r Ne ;
 Ond diofch am dragwyddol gariad,
 Cyfamod o newydd a wnawd,
 Addawyd d'a'i Person pur, sanctaidd,
 Mor isel a'i wisgo mewn cnawd.

Cyflawnwyd y proffwydoliaethau,
 Caw'd morwyn yn feichiog, sef Mair,
 A phan ddaeth cyflawnder yr amser,
 Gwnaed pob peth gogyfer a'r Gair.
 Wrth fyned i Fethlem i'w trethu,
 Ca'dd esgor mewn lletty tylawd,

teidwr Rhyteddod na welwyd ei eilun,
r lle, 'Ca'dd feithrin ei Brenin a'i Brawd !
b Fe dyfodd i fynu mewn dyndod,
r E. A Duwdod oedd ynddo fe'n llawn,
o, Wrth edrych ei lwybrau mor hynod,
drai: A'i sawredd rhyfeddod a gawn.
aig: A 'chydig y porthodd E filoedd,
 Newynog rai lluoedd wnai'n llawn ;
 Iachâai wywedigion a deillion,
 A chleifion,—ei ail ef ni chawn.
l Fe gododd E Lazarus o'i feddrod,
pres Ryw wyrthiau pur hynod oedd hyn,
l Daeth llawer o feirwon i fynu,
 Gwnaed hyny ni gredu 'n ddigryn,
at: Er dyfued yw'r codwin 'rym ni ynddo,
 Mae moddion i'n puro yn y Pen ;—
 Er amled yw'r beiau 'n ei bobl,
 Mae'n eiriol o'r tu fewn i'r llen.
 Pan gofiwyf am Berson o'r Drindod,
 Yn dyfod a'i agwedd fel gwas,
 Dioddefodd tan boenau mor hynod,
 'Rwy'n teimlo fy mhechod yn gas ;
 Ni fedraf amgyffred mor loesau,
 A gafodd E ddioddau'n yr ardd,
 'Wrth wneuthur am gamwedd im' gymmod.—
 Mi ai gwelaf E'n hynod o hardd.
 Ac yno daeth Judas â'i fyddin,
 'Rhoes gusan i'r Brenin mewn brâd ;
 Fe'i dygwyd at Pilat i'w chwipio,
 A'i daro a chleddyf ei Dad ;
 Fe'i arwciniwyd i synydd Calfaria,
 Fe'i hoeliwyd rhwng daear a nen
 I fynu yr ysbryd a roddodd,
 Gorphenodd gogwyddodd ei ben !

Fe'i dygwyd E'n fuan i'w gladdu,
 Ei gyfeillion oedd bruddion eu gwedd,
 Rhag ofn fod twyll yr Iuddewon,
 Seiliasant ryw faen wrth ei fedd;
 Daeth angylion o'r nesoedd i waered,
 Ac yna fe dreiglwyd y maen,
 Y bore doe'r gwragedd i 'mweled,
 A'r bedd yn agored a gaen'!

A'r Iesu oedd gwedi cyfodi
 Yn dawl 'nol gorphen y gwaith,
 A hyuy sydd gysur i lawer
 Tra perŷ gorthrymder y daith.
 O lasur ei enaid caiff weled,
 A chael ei ddiwallu ryw ddydd,
 Pan ddelô fe i gwrdd â'i ddyweddi,
 A gweled y rhei'ny yn rhydd.

Ac yno cyd seinio Hosannah,
 A chofio am grôes Calfari,
 A chofio am y Person ddiodddefodd,
 A'r goron ennillodd i ni;
 Ac yno bydd ffydd yn troi'n olwg,
 A'r gobaiŷ a dry yn fwyhad,
 Pan welom y cariad trag'wyddol
 A darddodd o fynwes y Tad.

Elias a Moses ac Abra'm,
 A'r seintiau i gyd fydd yn un,
 Yn canmol wrth weled y cymmod
 Rhwng Person y Duwdod a dyn;
 Pan welom ni drefniad y Drindod
 'R awr honno 'nol dyfod i ben,
 Cawn foli yr Oen yn ei haeddiant,—
 Gogon: t a moliant, Amen.

Vertical line of text on the left side of the page.

Vertical line of text on the left side of the page.

Vertical line of text on the right side of the page.

Vertical line of text on the right side of the page.

Text block in the bottom right corner, possibly a signature or stamp.

the 1990s, the number of people with a mental health problem has increased in the UK (Mental Health Act 1983, 1990).

There is a growing awareness of the need to improve the lives of people with mental health problems. The Department of Health (1999) has set out a strategy for mental health care in the UK. The strategy is based on the following principles:

- People with mental health problems should be treated as individuals, with their own needs and wishes.
- People with mental health problems should be given the opportunity to participate in decisions about their care and treatment.
- People with mental health problems should be given the opportunity to live in their own homes and communities.

The strategy also sets out a number of objectives for mental health care in the UK:

- To reduce the number of people with mental health problems who are admitted to hospital.
- To improve the quality of care and treatment for people with mental health problems.
- To improve the support and services available to people with mental health problems.

The strategy also sets out a number of actions to be taken to achieve these objectives:

- To develop a national framework for mental health care.
- To improve the training and education of mental health professionals.
- To improve the research and evidence base for mental health care.

The strategy also sets out a number of actions to be taken to improve the lives of people with mental health problems:

- To improve the support and services available to people with mental health problems.
- To improve the housing and accommodation available to people with mental health problems.
- To improve the employment and training opportunities available to people with mental health problems.

The strategy also sets out a number of actions to be taken to improve the public's understanding of mental health problems:

- To improve the public's understanding of mental health problems.
- To improve the public's attitudes towards people with mental health problems.
- To improve the public's awareness of the signs and symptoms of mental health problems.